CYNGOR TREF CAERWYS

POLISI YR IAITH GYMRAEG

CYNGOR TREF CAERWYS – Mae Cyngor Tref Caerwys wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, yn ystod gweithgareddau'r Cyngor, yn ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, os yw hynny'n bosibl, o dan yr amgylchiadau a'r ymarferoldeb. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i hybu'r Iaith Gymraeg, yn statudol atebol i'r Ddedd Iaith Gymraeg (1993) a'r Mesur Iaith Cymraeg (2011). Trwy hyn, mae'n cynnal rôl bositif trwy hybu ymarfer da.

Amcanion:

1. Datblygu oddi fewn adnoddau staffio a chyllid, fydd yn creu agoriadau gwell i wasanaethau, cyfleusterau a phrosesau democrataidd y Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg.

2. I fonitro'r polisi i sicrhau bod yr amcanion yn gyrraeddadwy a'r safonau'n cael eu cynnal.

3. **Polisiau a Mentrau Newydd:** Pan fydd y Cyngor yn cynllunio polisiau a mentrau newydd, bydd yn ystyried y canlyniadau ieithyddol i ofalu eu bod yn cyfarfod ag anghenion y polisi hwn. Bydd polisiau a mentrau newydd yn gofalu bod yr Iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio bob tro mae hynny'n ymarferol o fewn ystyr y Ddeddf. (Ddeddf Iaith Cymraeg(1993) a'r Mesur Iaith Gymraeg (2011).

4. **Staffio:** Ni does gan y Cyngor Glerc sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Hyd yma, nid yw hyn wedi achosi problemau. Serch hynny, bydd y Cyngor yn annog staff i ddysgu'r Gymraeg ac i roi sylw dyledus am yr angen i allu siarad Cymraeg wrth gyflogi staff. Ni fydd pwysau'n cael ei osod i symud swydd neu i ymgymryd â hyfforddiant yn erbyn eu hewyllys oherwydd y blaenoriaethau a amlinellir yn y polisi hwn.

5. **Cyfarfodydd a Chyfieithu:** Yn arferol, mae cyfarfodydd a phwyllgorau'r Cyngor yn agored i'r cyhoedd fel gwylwyr. Serch hynny, mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn golygu nad oes cyfleusterau cyfieithu i'r Iaith Gymraeg. Yn wir, nid oes gofyn wedi bod am y cyfleusterau hyn yn ddiweddar. Byddwn yn dal i adolygu'r sefyllfa.

6. **Cyfarfodydd Cyhoeddus a Chyfarfodydd Eraill:** O ystyried cyn lleied o'r staff sy'n rhugl eu Cymraeg a difrifoldeb y cyfyngiadau ariannol presennol, nid yw cynnig cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill, yn anffodus, yn gynnig ymarferol yn y dyfodol rhagweladwy.

7. **Delwedd Cyhoeddus y Cyngor:** Bydd enw a chyfeiriad y Cyngor a gwybodaeth safonol arall a ddefnyddir ar benawdau llythyrau a hysbysiadau'n ddwyieithog.

8. **Gohebiaeth Ysgrifenedig (Papur ac Electronig):** Ar hyn o bryd, Saesneg yw iaith gohebu Cyngor Tref Caerwys. Mae'n cydnabod hawl y cyhoedd i gyfathrebu'n y Gymraeg a byddent yn ateb gohebiaeth yn iaith dewisol y cyfathrebydd. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bositif i ddwyieithrwydd wrth yrru a derbyn gohebiaeth, yn seiliedig ar natur a phwrpas yr ohebiaeth.

9. **Cyfathrebiadau ar y Ffôn:** Nid oes, ar hyn o bryd, swyddog sy'n siarad Cymraeg yn cael ei gyflogi gan y Cyngor fyddai'n gallu ymateb i ymholiadau drwy'r Gymraeg ar y ffôn. Am 'nawr, gwahoddir galwyr i unai, ysgrifennu i'r Cyngor yn eu hiaith dewisol ac, neu, parhau'n y Saesneg. Pe byddai'r galwr yn dymuno parhau â'r sgwrs yn Gymraeg, bydd y Clerc yn trefnu cyfieithydd.

10. **Gwasanaethau Digidol a Safwê:** Mae Safwê'r Cyngor yn cael ei gynnal yn y Saesneg. Pan yw'n bosibl bydd rhai adrannau'n ddwyieithog a hynny o fewn cyfyngiadau'r gôst a'r arbenigedd sydd ar gael.

11. **Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd ar Gyfer y Cyhoedd:** Ar hyn o bryd mae Agenda a Chofnodion Cyfarfodydd Cyngor Tref Caerwys yn Saesneg. Ystyrir bod y gôst o ddarparu agenda/cofnodion yn y Gymraeg yn waharddol ac yn ormodol i'r hyn a ddisgwylir i drethdalwyr y Cyngor ei dalu. Serch hynny, darperir agenda dwyieithog pan yw'n hynny'n ymarferol, os oes gofyn.

12. **Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd:** Cyhoeddir hysbysiadau statudol yn ddwyieithog yn unol â'r Ddeddf.

13. **Monitro:** Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro a'i adolygu'n yn flynyddol gan y Cyngor llawn.

Derbynwyd y Polisi hwn gan Gyngor Tref Caerwys ar 19 eg Hydref, 2021 - o dan munudyn: 7(D). 208/21 ac fei hadolyir bob Hydref: fel yn Llyfr Munudau (Cofnodion) y Cyngor.